



# YSGOL GYNRADD PARC Y BONT

Llanddaniel Fab, Ynys Môn, LL60 6HB

☎ 01248 422350 ✉ [pennaeth.parcybont@ynysmon.gov.uk](mailto:pennaeth.parcybont@ynysmon.gov.uk)

Pennaeth / *Headteacher*: Mr Iwan Wyn Taylor



8.1.21

Annwyl Rienì,

Yn dilyn y cyhoeddiad bore 'ma, ni fydd disgyblion yn dychwelyd i'r ysgol ar gyfer dysgu wyneb i wyneb tan o leiaf Chwefror 1af, ac oni bai y gostyngiad sylweddol yn yr achosion erbyn hynny, byddwn yn parhau â'n darpariaeth dysgu o bell a dysgu cyfunol dan adolygiad nesaf y Llywodraeth o gwmpas hanner tymor Chwefror.

Mae ein darpariaeth dysgu o bell ar **See-Saw** (gyda'r Cyfnod Sylfaen) a **Google Classroom** (gyda CA2) yn mynd rhagddi yn hwylus ac yn effeithiol hyd yma – yn wir, mae'r athrawon wrth eu boddau gyda'r ymateb wythnos yma. Rwyf yn addo y byddwn yn mynd ati i adeiladu ar ein darpariaeth effeithiol gyfredol ac yn cynnig y ddarpariaeth orau bosibl ar gyfer ein disgyblion. Er enghraifft, byddwn yn treialu cyfarfod rhithiol gyda disgyblion wythnos nesaf fesul blwyddyn (Bl.1-6) gan obeithio gwneud hynny yn gyson dros yr wythnosau nesaf. Byddaf yn anfon manylion ynglyn â hyn cyn gynted â phosibl.

Cofiwch mai See-Saw / Google Classroom a'r cyfarfodydd yma yw'r ddolen gyswllt rhwng y disgyblion a'u hathrawon, felly, os yn bosibl, anogwch eich plentyn i wneud rhyw fath o gyswllt a'u hathro/awes yn ddyddiol. Gwn y gallai fod yn anodd ar rieni sydd yn gorfod gweithio o adref a gwarchod eu plant ar yr un pryd. **Rwyf yn pwysleisio unwaith eto: cofiwch ein bod yma i'ch cefnogi chi a'ch plentyn.** Os oes ganddoch chi unrhyw gwestiwn, neu os ydych chi / eich plentyn yn cael unrhyw anhawster wrth defnyddio'r llwyfannau digidol, yna cysylltwch yn ddiymdroi gyda'r athro/awes dosbarth drwy ffonio neu ebostio.

Fel y gwyddoch, rwyf yn rhoi cryn bwyslais ar ddarllen. Os hoffech chi fenthg llyfrau darllen ar gyfer eich plentyn, yna cysylltwch â ni ac fe allwn drefnu i chi eu casglu o'r dderbynfa.

Os ydych chi angen y ddarpariaeth gofal ar gyfer plant gweithwyr allweddol a phlant sy'n agored i niwed / dan anfantais yr wythnos nesaf (11/1/21 – 15/1/21), yna cwblhewch y ffurflen yma ar-lein c.g.a.ph – dilynwch y ddolen: [https://forms.office.com/Pages/ResponsePage.aspx?id=Ug4\\_TzS3ZEGUCRtgHRR5k2JdRIORle1Lv\\_gQxUHGcm8VUNEZLUFJRU0xZMEZRNV1WEJVS1k1VE9QRC4u](https://forms.office.com/Pages/ResponsePage.aspx?id=Ug4_TzS3ZEGUCRtgHRR5k2JdRIORle1Lv_gQxUHGcm8VUNEZLUFJRU0xZMEZRNV1WEJVS1k1VE9QRC4u) **Fe fyddwn yn sicrhau fod plant gweithwyr allweddol a phlant sy'n agored i niwed/dan anfantais yn cael cyfle i gwblhau y tasgau sydd yn cael eu gosod ar-lein pan yn mynychu'r ddarpariaeth gofal yn yr ysgol.** Rhestr gweithwyr allweddol i'w chael [yma](#).

Fel arfer, cofiwch fy mod yma os yr ydych chi angen sgwrs am fater penodol neu eich bod angen rhannu pryder gyda mi fel Pennaeth.

Cofion gorau,

**Iwan Wyn Taylor**

(Pennaeth)

Bl/Yr.5&6 - Mr Rhys Ynyr Jones: [JonesR919@hwbcymru.net](mailto:JonesR919@hwbcymru.net)

Bl/Yr.3&4 - Mrs Siân Owen: [OwenS152@hwbcymru.net](mailto:OwenS152@hwbcymru.net)

Bl/Yr.1&2 - Miss Angharad Williams: [williamsA1665@hwbcymru.net](mailto:williamsA1665@hwbcymru.net)

Meithrin a Derbyn / Nursery & Reception – Mrs Anest Jones: [JonesA1204@Hwbcymru.net](mailto:JonesA1204@Hwbcymru.net)

Ffôn / Telephone: 01248 422350